**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

29 Chwefror 2024

Annwyl Jenny,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 9 Chwefror ynglŷn â'r Uwchgynhadledd Cyfiawnder Ieuenctid ar Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2024. Er mai cyfrifoldeb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y system gyfiawnder, fi sy'n ymateb gan mai fy swyddogion i a arweiniodd ar y gwaith o drefnu'r uwchgynhadledd a nodi ei chanlyniadau, er i swyddogion fy mhortffolio i a phortffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fynychu'r uwchgynhadledd fel rhan o ddull gweithredu cydgysylltiedig.

Cynhaliwyd yr Uwchgynhadledd yn rhithiol, a mynychwyd y digwyddiad gan dros 40 o gyfranogwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, Prifysgol Efrog Sant Ioan, arweinwyr polisi o adrannau ar draws Llywodraeth Cymru, cyfiawnder ieuenctid, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar ac eraill.

Gwrandawodd y cyfranogwyr ar gyflwyniadau gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Milton Keynes, a hefyd cyflwyniad am 'The Box', sef adnodd e-ddysgu ar-lein am ddim sy'n rhoi'r gallu i weithwyr proffesiynol yn y system gyfiawnder adnabod problemau cyfathrebu, a chael y sgiliau i weithio gydag unigolion sydd â phroblemau o'r fath.

Wedyn, cafwyd trafodaeth ar y rhwystrau/dulliau lliniaru a'r adnoddau/cyfleoedd sy'n bodoli yn y maes, gan nodi llwybrau posibl ar gyfer gwella o dan y system bresennol. Yn ei sylwadau cloi, dywedodd Pippa Cotterill, Pennaeth Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, fod yr uwchgynhadledd wedi bod yn un gadarnhaol dros ben.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Unwaith y bydd swyddogion ar draws y Llywodraeth wedi ystyried yr holl wybodaeth a syniadau a rannwyd, a'u bod wedi diffinio a chynllunio ffordd fanylach ymlaen, bydd y Gweinidogion perthnasol yn cael cyngor i'w helpu i wneud penderfyniadau ar y ffordd honno. Byddaf yn parhau i roi diweddariadau ar hynt y gwaith hwn i'r Aelodau.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**